# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Setliad Terfynol yr Heddlu 2016-17** |
| **DYDDIAD** | **2 Mawrth 2016** |
| **GAN** | **Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus** |

Yn dilyn fy nghyhoeddiad ynghylch Setliad Diwygiedig yr Heddlu ym mis Chwefror, rwy'n cyflwyno heddiw Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (rhif 2) 2016-17 (Setliad Terfynol – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau). Mae hwn yn amlinellu elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer heddluoedd yng Nghymru yn 2016-17. Mae hyn yn dilyn cwblhau'r broses graffu ar y gyllideb a chyhoeddi'r Gyllideb Derfynol i Gymru.

Mae heddluoedd yng Nghymru yn cael eu hariannu drwy drefniadau ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, gan ddefnyddio fformiwla gyffredin sy'n seiliedig ar anghenion. Fel a gyhoeddwyd yn Setliad Diwygiedig yr Heddlu, mae'r Swyddfa Gartref wedi newid y fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i un sy'n defnyddio cyllid gwaelodol. O dan y trefniadau hyn, bydd gostyngiad o 0.6% yng nghyllid grant cyffredinol pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2016-17 o'i gymharu â 2015-16.

Mae'r ffigurau wedi'u crynhoi yn Nhablau 1 i 3 y Datganiad hwn. Cyfanswm y cymorth refeniw ar gyfer heddluoedd Cymru yn 2016-17 yw £355 miliwn. O'r cyllid hwn, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £136.8 miliwn fel Grant Cymorth Refeniw Heb ei Neilltuo ac Ardrethi Annomestig. Yr un yw'r ffigurau hyn â'r rheini a ddarparwyd yn y Setliad Dros Dro. Disgwylir i'r adroddiad fod yn destun dadl yn y Cynulliad ar 9 Mawrth.

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
[http://llyw.cymru/topics/localgovernment/finandfunding/policesettlement/police-settlement-2016-17/?lang=cy](http://llyw.cymru/topics/localgovernment/finandfunding/policesettlement/police-settlement-2016-17/?lang=cy)

## Cyllid Refeniw'r Heddlu

**Tabl 1: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)**

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 14.976 | 13.640 | 12.788 | 12.895 |
| Gwent | 32.251 | 30.674 | 29.696 | 30.107 |
| Gogledd Cymru | 23.944 | 22.328 | 21.308 | 21.578 |
| De Cymru | 76.630 | 73.357 | 71.218 | 72.177 |
| Cyfanswm | 147.800 | 140.000 | 135.010 | 136.757 |

**Tabl 2: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)[2]**

| | 2013-14[1] | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 40.684 | 39.367 | 37.511 | 37.117 |
| Gwent | 48.437 | 46.169 | 43.220 | 42.393 |
| Gogledd Cymru | 57.015 | 54.774 | 51.854 | 51.167 |
| De Cymru | 101.035 | 95.843 | 89.338 | 87.463 |
| Cyfanswm | 247.171 | 236.153 | 221.923 | 218.140 |

**Tabl 3: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)**

| | 2013-14[1] | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 55.659 | 53.008 | 50.299 | 50.012 |
| Gwent | 80.687 | 76.843 | 72.917 | 72.501 |
| Gogledd Cymru | 80.959 | 77.102 | 73.162 | 72.745 |
| De Cymru | 177.665 | 169.201 | 160.555 | 159.639 |
| Cyfanswm | 394.971 | 376.153 | 356.933 | 354.897 |

Nodiadau:

[1] Ffigurau 2013-14 wedi'u haddasu ar gyfer trosglwyddiadau i'r setliad

[2] Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 Adroddiad Grant yr Heddlu, sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' a 'Ychwanegu rheol 1' (colofnau a a b) plws swm y 'cyllid gwaelodol' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau sydd ar gael